Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Natur a Ni
Nature and Us

# Cynulliad Dinasyddion Natur a Ni
# Atodiad 2: Panel Cynghori

**Awduron: Centre for Deliberative Research**

**Paratowyd ar gyfer: Cyfoeth Naturiol Cymru**

**Dyddiad: Mai 2023**

# Atodiad 2: Panel Cynghori

Mae'r atodiad hwn yn darparu rhestr lawn o aelodau'r Panel Cynghori a gafodd ei gynnull i arwain y gwaith o lunio a chynnal cynulliad y dinasyddion, gan gynnwys creu cwestiynau craidd, arwain y dyluniad, a dewis tystiolaeth. Mae hefyd yn cynnwys cylch gorchwyl y panel cynghori hwn.

**Lyn Cadwallader**
**Prif Weithredwr, Un Llais Cymru ers 2010**
Mae gan Lyn gyfrifoldeb ariannol a gweithredol fel rhan o'i waith yn rhedeg Un Llais Cymru, y corff cynrychioliadol cenedlaethol ar gyfer y sector Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru. Cyn dechrau ar ei swydd bresennol roedd ganddo 19 mlynedd o brofiad o weithio i lywodraeth leol a'r sector tai yn Ne-ddwyrain Cymru. Graddiodd mewn Daearyddiaeth ac mae ganddo gymwysterau ôl-raddedig mewn Tai, Gweinyddiaeth Busnes ac Arweinyddiaeth. Ers iddo ymuno ag Un Llais Cymru, mae wedi ymgymryd â sawl rôl gyda chyrff cynghori Llywodraeth Cymru, ac mae'n aelod o'r Sefydliad Tai Siartredig, Bwrdd Cynghori Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru ac yn gyn-gadeirydd Panel Cist Gymunedol Sir Fynwy (SPORTLOT). Mae'n aelod o'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Ymddiriedolaeth Natur Gwent.

**Claire Chappell**
**Pennaeth Newid Ymddygiad ac Ymgysylltu Hinsawdd, Llywodraeth Cymru**
Mae Claire yn gweithio o fewn Is-adran Newid Hinsawdd ac Effeithlonrwydd Ynni Llywodraeth Cymru a hi sy'n gyfrifol am y rhaglen ymgysylltu genedlaethol 'Gweithredu ar Newid Hinsawdd'. Mae hyn yn cynnwys arwain ar strategaeth genedlaethol a chynlluniau cyflawni cysylltiedig i gynorthwyo pobl Cymru ac ymgysylltu â hwy i weithredu ar newid hinsawdd. Mae Claire hefyd yn arwain ar y gwaith o ymgysylltu â rhanddeiliaid a sicrhau dull cyflawni cydweithredol o ymgysylltu a chyfathrebu â phobl Cymru ar newid hinsawdd. Hi hefyd sy'n gyfrifol am drefnu'r digwyddiad blynyddol Wythnos Hinsawdd Cymru.

**Sandy Clubb**
**Artist Cynnwys, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol**
Sandy sy'n arwain ar gyfranogiad yn Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys arwain gwaith i osod cyfeiriad i'r tîm dros y saith mlynedd nesaf drwy Ffocws Ein Dyfodol. Mae Sandy wedi bod yn aelod o dîm Cenedlaethau'r Dyfodol ers 2020. Mae ei chefndir yn y sector gwirfoddol, wedi gweithio ar brosiectau cyfranogiad a gwirfoddoli mewn amrywiaeth o leoliadau, o Sustrans Cymru i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chymorth Canser Macmillan. Mae'n frwd am alluogi cymunedau i chwarae rhan lawnach yn y broses o wneud penderfyniadau a chreu atebion cynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol er mwyn sicrhau trawsnewidiad cyflawn.

**Colleen Cluett**
**Dadansoddwr Newid, Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol**
Mae Colleen yn Ddadansoddwr Newid sy'n canolbwyntio ar gyngor a chymorth yn Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Fel rhan o'i gwaith mae'n rheoli rhaglen y Swyddfa ar gyfer darparu cyngor a chymorth i gyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys gweithio gyda sefydliadau eraill i sicrhau bod ein cymorth yn

gydweithredol ac yn integredig. Mae hefyd yn rhan o'r Tîm Corff Cyhoeddus a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fel Arweinydd Corff Cyhoeddus ar gyfer sawl corff cyhoeddus cenedlaethol a rhanbarthol a byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn Ne-ddwyrain Cymru.

**Tamsin Davies**
**Swyddog Ymgyrch Adfer Natur, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar**

**Sara Elias**
**Uwch Swyddog Polisi, Iechyd Cyhoeddus Cymru.**
Mae Sara yn Uwch Swyddog Polisi i'r Tîm Polisi, wedi iddi ymuno ag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2022. Mae gwaith presennol Sara yn canolbwyntio ar bartneriaeth gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ymgorffori meddwl hirdymor i'r gwaith o lunio polisïau cyhoeddus. Cyn ei swydd bresennol, bu Sara yn gweithio i awdurdodau lleol ac elusennau mewn rolau uwch, gan arwain timau polisi strategol ac ymchwil.

**Tara Froggatt**
**Gwyddonydd dalgylch, Dŵr Cymru**

**Caryl Haf Jones**
**Cadeirydd, Clwb Ffermwyr Ifanc**

**Jenny Lloyd**
**Cydlynydd Rhaglen – Rhaglen Cynorthwyo Trawsnewidiad ac Adfer, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
Mae Jenny yn cydlynu rhaglen arloesol CLILC i ddatgarboneiddio a chynnig cymorth ymaddasu i newid hinsawdd i awdurdodau lleol Cymru, gan rannu'r arferion gorau o bob rhan o Gymru a thu hwnt, a chysylltu swyddogion ac Aelodau etholedig i helpu i gyflymu camau gweithredu ar yr hinsawdd.

**Tomos Owen**
**Arweinydd Integreiddio Ffoaduriaid, OASIS Caerdydd**

**Sue Pritchard**
**Prif Weithredwr y Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad**
Sue Pritchard yw Prif Weithredwr y Comisiwn Bwyd, Ffermio a Chefn Gwlad. Mae cefndir Sue ym maes arweinyddiaeth, strategaeth, diwylliant a newid, ac mae ganddi brofiad o weithio fel ymgynghorydd a hyfforddwr, ymchwilydd ac awdur ac fel cyfarwyddwr anweithredol a chadeirydd bwrdd iechyd lleol yng Nghymru. Mae'n aelod o sawl bwrdd cynghori academaidd, yn ymddiriedolwr Sefydliad CoFarm ac yn llywodraethwr annibynnol yn y Brifysgol Amaethyddol Frenhinol. Mae Sue yn ffermio ar fferm da byw organig yn Sir Fynwy sydd ag achrediad yr Asiantaeth

Bridd, ac mae'n canolbwyntio ar ffermio ar gyfer cadwraeth.

**Chris Roscoe**
**Aelod o Grŵp Cynghori Natur a Ni, Swyddog Trwyddedu Morol, Cyfoeth Naturiol Cymru**
Mae Chris yn gyn-fyfyriwr yn Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n aelod o'r Grŵp Cynghori Natur a Ni ac yn Swyddog Trwyddedu Morol i Cyfoeth Naturiol Cymru, a'i waith yw penderfynu ar geisiadau am weithgareddau o fewn rhanbarth glannau ac alltraeth Cymru. Yn ei amser ei hun, mae gan Chris ddiddordeb arbennig mewn hunangynhaliaeth a chrefftau traddodiadol, gan gynnwys plygu perthi a chadw stoc. Mae hefyd yn gadeirydd elusen Cylch Meithrin Maenclochog, sy'n rhedeg y feithrinfa leol yn ei ardal.

**Will Slocombe**
**Darllenydd Saesneg ym Mhrifysgol Lerpwl**
Mae Will Slocombe yn gweithio yn Adran Saesneg Prifysgol Lerpwl. Mae'n addysgu ac yn ymchwilio i ffuglen wyddonol, yn enwedig cynrychioliadau o ddeallusrwydd artiffisial a thechnolegau dyfodolaidd, yn ogystal â gwasanaethu fel cyd-gyfarwyddwr canolfan Olaf Stapledon Centre for Speculative Futures. Ef hefyd yw un o sylfaenwyr FLiNT: Dyfodol Llythrennedd trwy Naratif (Futures Literacy through Narrative).

**Annie Smith**
**Pennaeth Polisi a Gwaith Achos Natur, Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar**

**Alice Teague**
**Dirprwy Gyfarwyddwr Morol, Llywodraeth Cymru**

**Dr Caroline Verfuerth**
**Canolfan Newid Hinsawdd a Thrawsnewidiadau Cymdeithasol (CAST), Prifysgol Caerdydd**
Mae Caroline yn Gydymaith Ymchwil yn y Ganolfan Newid Hinsawdd a Thrawsnewidiadau Cymdeithasol ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae ei hymchwil yn canolbwyntio ar ffyrdd carbon isel o fyw, dietau cynaliadwy a systemau bwyd, a gweledigaeth ar gyfer dulliau ymchwil. Mae ganddi ddiddordeb yn y cwestiwn "Sut gallwn ni, fel unigolion a chymdeithas, fyw mewn dyfodol carbon isel, teg a chynaliadwy a sut gallwn ni gyrraedd yno?". Yn ddiweddar, bu hefyd yn gweithio fel Cymrawd Ymchwil Polisi gyda Llywodraeth Cymru yn yr Uned Tystiolaeth Strategol. Cyn ymuno â chanolfan CAST, cwblhaodd ei PhD ym Mhrifysgol Sheffield.

# Cylch Gorchwyl
# Panel Cynghori Cynulliad Dinasyddion

## Diben

Galwyd y grŵp cynghori hwn gan Cyfoeth Naturiol Cymru i gefnogi datblygiad a chyflwyno cynulliad dinasyddion fel rhan o'r rhaglen Natur a Ni. Y bwriad yw adeiladu ar y gwaith a wnaed yn Sgwrs Genedlaethol Natur a Ni, a chyflogi dull 'Tîm Cymru' i gyflawni'r gwaith hwn.

Bydd canlyniadau'r cynulliad yn llunio'r weledigaeth ar gyfer ein hamgylchedd naturiol yng Nghymru yn uniongyrchol, y camau a gymerwn ar y cyd â dinasyddion er budd natur a phobl, a bydd yn arwain y ffordd y bydd CNC a sefydliadau eraill yn gweithio

Bydd y Panel Cynghori yn cael ei hwyluso a'i reoli gan y Ganolfan Ymchwil Ymgynghori yn y Ganolfan Genedlaethol Ymchwil Gymdeithasol, sy'n arwain ar gynllunio a chyflwyno'r cynulliad dinasyddion.

Bydd y Panel Cynghori yn bwydo i mewn i bedwar maes allweddol:

1. Y cwestiynau craidd sy’n fframio'r cynulliad dinasyddion cyffredinol
2. Y dystiolaeth a ddewiswyd i'w chyflwyno yn ystod y cynulliad
3. Yr offer dosbarthu a ddefnyddir drwy gydol y sesiwn
4. Gweithio gyda'n gilydd i fwrw ymlaen â'r argymhellion a wnaed gan y cynulliad

## Ffyrdd o weithio

Cytunodd aelodau'r panel i ddod â'r canlynol i'r grŵp:

1. Parodrwydd i greu gweledigaeth a rennir, a phwrpas
2. Parch ac ymddiriedaeth ymysg pawb
3. Gofod lle mae pawb yn teimlo eu bod yn gallu cyfrannu
4. Gofod lle mae pawb yn teimlo bod eu cyfraniadau’n cael eu clywed.
5. Cydweithio ar draws sefydliadau ac unigolion
6. Parch tuag at ei gilydd yng nghyd-destun ymddiriedaeth yn y nod cyffredin ar draws gwahanol safbwyntiau a phrofiadau
7. Rhannu dysgu gan ei gilydd
8. Ymgysylltu ar draws sectorau, gan gynnwys llywodraeth leol, sefydliadau cymunedol, cynghorau tref, a safbwyntiau yn amrywio o sefydliadau amaethyddol i rai morol a sefydliadau eraill sy'n canolbwyntio ar natur

## Cyfraniadau’r Rhaglen

Bydd aelodau'r panel yn cyfrannu'r canlynol yn ystod ac ar ôl y rhaglen:

1. Ffynonellau tystiolaeth cadarn a dibynadwy a negeseuon allweddol ar gyfer y cynulliad dinasyddion
2. Arbenigedd, gwybodaeth, syniadau a phrofiadau o'r ystod eang o safbwyntiau a gynrychiolir ar y panel
3. Integreiddio ag ‘ymgysylltiadau dinasyddion’ eraill sy'n digwydd ledled Cymru ar bwnc gweledigaethau bywyd da i gefnogi trawsnewid cymdeithasol.
4. Cysylltiadau â blaenoriaethau Gweinidogol, argyfyngau hinsawdd a natur, straeon unigol a grŵp, a chyda gweithgareddau cyfranogi eraill ar draws y nodau llesiant i sicrhau bod cyfleoedd rhyngddisgyblaethol yn cael eu nodi a'u gwireddu.
5. Cefnogi cyfathrebu a gweithredu'r weledigaeth a rennir. Mae hyn yn cynnwys helpu i gyfleu canlyniadau'n glir i'r cyhoedd ac i sectorau eraill, a’u bwydo i'ch gwaith eich hun ar yr un pryd.